

# Eich nyrs yn y dyfodol

Yr hyn y mae'n safonau newydd ar gyfer nyrs y dyfodol yn ei olygu i chi



# Mae'n cymdeithas yn newid – ac mae gofal yn newid hefyd

Mae nyrsys yn darparu gofal a chymorth trwy gydol ein bywydau. Felly, mae'n bwysig gwybod y byddwch wastad yn cael gofal o ansawdd uchel.

Dyma'r rheswm pam ein bod wedi pennu 'Safonau medrusrwydd i nyrsys cofrestredig'. Mae'r safonau hyn yn rhestru'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad y mae'n rhaid i bob nyrs feddu arnynt, boed y rhain yn nyrsys sy'n gofalu am oedolion, yn nyrsys plant, yn nyrsys anabledau dysgu neu'n nyrsys iechyd meddwl. Rydym wedi diweddarau'r safonau hyn yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod nyrsys yn darparu'r gofal gorau ag y bo modd i chi, nawr ac yn y dyfodol.

## Yr hyn y mae'r safonau newydd yn ei olygu i chi

Rhennir y safonau'n saith adran. Dyma'r hyn y mae pob un yn ei olygu i chi.

### 1. Bod yn weithiwr proffesiynol atebol


Mae nyrsys yn darparu gofal diogel a thosturiol sy'n seiliedig ar eich anghenion unigryw chi. Maent yn cyfathrebu'n dda â chi ac maent wastad yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd.

Gallwch chi fod yn siŵr eu bod wastad yn dysgu, yn gwella ac yn myfyrio am eu harfer.

### 2. Hyrwyddo iechyd ac atal salwch

Mae nyrsys yn rhoi'r cymorth y mae angen i chi ei gael er mwyn rheoli'ch iechyd, fel y gallwch gael bywyd o ansawdd da yn ystod pob cam o'ch bywyd.


Maent yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r materion mawr sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y materion pwysicaf i chi.



### 3. Asesu anghenion a chynllunio gofal

Mae nyrsys yn asesu eich anghenion meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon pan fyddant yn gweithio gyda chi i gynllunio'ch gofal.

Maent yn gwneud penderfyniadau gyda chi, nid ar eich rhan.



### 4. Darparu a gwerthuso gofal

Mae nyrsys yn cynorthwyo pobl o bob oed mewn amrediad o leoliadau gofal. Maent yn arbenigo mewn gwahanol feysydd ond gallant gynorthwyo pobl gyda'r holl gyflyrau iechyd cyffredin.

Maent yn darparu gofal sy'n seiliedig ar eich anghenion chi, ac yn gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth.

Yna, maent yn gweithio gyda chi, eich teulu a'ch gofalwyr i werthuso a fodlonwyd y nodau y gosodoch gyda'ch gilydd.

### 5. Arwain a rheoli gofal nyrσιο a gweithio mewn timau

Mae nyrsys wedi cael eu hyfforddi i fod yn arweinwyr cadarn ac i gynnig esiampl lle y bynnag y byddant yn mynd. Maent yn dirprwyo gwaith mewn ffordd ddiogel a phriodol ac yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr mewn gwahanol rolau.

### 6. Gwella diogelwch ac ansawdd gofal

Mae nyrsys yn helpu i fonitro a gwella ansawdd y gofal yr ydych yn ei gael. Maent yn asesu risgiau i ddiogelwch ac yn gweithredu er mwyn rheoli'r risgiau, gan roi'r pwys mwyaf ar eich budd pennaf, eich anghenion a'ch dewisiadau chi.

### 7. Cydlynu gofal

Mae nyrsys yn arwain y broses o sicrhau bod y gofal y byddwch yn ei gael trwy gydol eich bywyd yn cael ei gydlynu'n dda, yn enwedig os oes gennych chi anghenion meddygol lluosog neu os ydych yn cael gofal ar draws amrediad o leoliadau.

Maent yn ymwybodol o bolisiau lleol a chenedlaethol ac mae hyn yn eu helpu i wella'r ffordd y mae'ch lleoliadau gofal yn gweithredu.

## Beth am y sgiliau penodol y mae eu hangen ar nyrsys?

Ceir dau atodiad yn y safonau medrusrwydd sy'n rhestru'r sgiliau y mae'n rhaid bod nyrsys yn meddu arnynt, a gweithdrefnau y mae'n rhaid eu bod yn gallu eu cyflawni pan fyddant yn ymuno â'n cofrestr. Mae un yn canolbwyntio ar gyfathrebu a sgiliau perthynas ac mae'r llall yn canolbwyntio ar weithdrefnau nyrsio. Mae lefel yr arbenigedd y mae ei hangen ar nyrs ym mhob medr yn dibynnu ar y maes nyrsio y byddant yn cofrestru ynddo gyda ni.

## Pa safonau eraill yr ydym yn eu pennu?

Rydym yn cyhoeddi Cod proffesiynol ar gyfer nyrsys, sy'n nodi'r safonau arfer ac ymddygiad y mae'n rhaid iddynt gadw atynt bob dydd.

Dan y Cod, rydym yn pennu amrediad o safonau a dogfennau arweiniad eraill, y maent oll wedi cael eu cynllunio er mwyn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel.

Yn ogystal, rydym yn dweud wrth brifysgolion a'u partneriaid lleoliadau arfer yr hyn a ddisgwyliwn ganddynt pan fyddant yn darparu addysg a hyfforddiant nyrsio a bydwreigiaeth. Trwy wneud hyn, caiff nyrsys eu cynorthwyo i feithrin y sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn eich cadw chi yn ddiogel yn y dyfodol.



Gallwch gael gwybod mwy am y Safonau medrusrwydd ar gyfer nyrsys cofrestredig trwy droi at:

[www.nmc.org.uk/education](http://www.nmc.org.uk/education)

**NMC** Cyngor  
Nyrsio a  
Bydwreigiaeth